

Adran:	Cyllid ac Adnoddau
Teitl y Swydd:	Rheolwr/wraig cyllid
Gradd:	Tua £30000 pa
Contract:	40 awr yr wythnos (TOIL)
Atebol i:	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Cyfrifol am:	Rheolaeth llinell y Cynorthwy-ydd Cyllid a'r Ariannydd

Pwrpas y Swydd

Sicrhau bod systemau cyllid Chapter yn cael eu cynnal yn gywir yn ddyddiol.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

- Prosesu cyflogres i holl gwmnïau Chapter
- Nodi data ar gyfer y Llyfr Cyfrifon Gwerthiant a chyfrifoldeb cyffredinol dros y llyfr cyfrifon gwerthiant a phrynu, cysoniadau a thaliadau
- Cysoniadau banc misol
- Paratoi ffuflen TAW chwarterol a chysoniadau i'r fantolen
- Paratoi a phostio newidiadau/dyddlyfrau fel bo angen
- Paratoi anfonebau ailgodi a chynnal cyfrif rhyng-gwmni misol
- Rheoli arian mân
- Paratoi adroddiadau cyllideb i ddeiliaid cyllidebau
- Cynorthwyo i baratoi cyfrifon rheolaeth misol

Rheolaeth Cyllidebol

Dim cyfrifoldebau rheolaeth cyllideb personol. Gweithio gyda aelodau o'r staff sydd yn dal cyllidebau fel bo angen.

Rheolaeth Personel

Rheolaeth llinell y Cynorthwy-ydd Ariannol a'r Ariannydd

Amrywiol

* Bod yn gyfarwydd a chydymffurfio gyda'r holl weithdrefnau iechyd a diogelwch, gweithrediadol, personol, gofal cwmser, cyfle cyfartal, diogelu data ac ariannol, yn enwedig sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl rwymedigaethau statudol.

- Unrhyw ddyletswyddau eraill a ystyrir yn rhesymol yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Amodau arbennig

Arwain ar reoliadau ariannol Chapter yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau naill ai pan ar wyliau neu oherwydd salwch hir dymor.

Manyleb person

Sgiliau/gwybodaeth hanfodol:

- Hynod o lythrennog mewn TG, gydag uwch sgiliau Excel a phrofiad o ddefnyddio Pecynnau Cyfrifo Integredig, yn benodol Sage 50 ar gyfer cyfrifon a'r gyflogres.
- Profiad sylweddol mewn rôl gyfrifo neu reolwr/wraig cyllid, yn ddymunol yn y sector elusen
- Profiad o reoli tîm bychan
- Y gallu i ddefnyddio ei fenter ei hun, datrys problemau a gweithio ar draws pob adran o'r swyddfa gyllid
- Y gallu i gymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth llawn dros waith adran a gweithredu ar eich liwt eich hun (i'w ddangos gan brofiad)

Sgiliau/gwybodaeth dymunol

- Cymhwyster lefel AAT
- Profiad blaenorol mewn rôl debyg yn y sectorau elusen neu cyhoeddus
- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn ysgifenedig ac ar lafar

Diweddarwyd Hydref 2018